

Ymgynghoriad: Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Abertawe - Cynllunio ar gyfer dyfodol Darpariaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn Abertawe

Os oes angen yr arolwg hwn arnoch mewn fformat arall, e.e. print bras, e-bostiwch addysg@abertawe.org.uk.

Hoffai Cyngor Abertawe wybod eich barn ar ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032 drafft. Gellir gweld copi llawn o'r Cynllun drafft a ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad (fformat Word) yn www.abertawe.gov.uk/wesp.

Cyngor Abertawe yw'r rheolwr data ar gyfer yr wybodaeth bersonol rydych chi'n ei darparu ar y ffurflen hon. Defnyddir eich gwybodaeth i'n helpu i gyflawni'n rhwymedigaeth gyfreithiol ac ni chaiff ei defnyddio at unrhyw ddiben arall. Ni fyddwn yn rhannu'ch data ag unrhyw drydydd parti oni bai fod gofyn i ni neu y caniateir i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith.

Mae cyfraith diogelu data'n disgrifio'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data fel un sy'n angenrheidiol er mwyn i ni gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol. I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Cyngor Abertawe'n defnyddio'ch data personol, gan gynnwys eich hawliau fel gwrthrych y data, darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd corfforaethol ar ein gwefan.

Sylwer, yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth, gellir gofyn am unrhyw ymateb a dderbynnir ac efallai bydd yn rhaid iddynt gael eu rhyddhau'n gyhoeddus. Caiff yr holl sylwadau ysgrifenedig a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori ac unrhyw gyfnod gwrthwynebu dilynol eu hanfon at y cynghorwyr sy'n cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Cabinet. Caiff gohebiaeth ei chofnodi a'i chydabod hefyd.

Anfonwch eich ymatebion erbyn 22 Tachwedd 2021 fan bellaf.

Nodwch eich enw: **UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru)**

Nodwch a ydych chi'n ymateb fel:

Sefydliad: undeb llafur

Nodwch eich cyfeiriad e-bost er mwyn caniatáu inni roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am hynt y Cynllun yn dilyn yr ymgynghoriad:

gareth@ucac.cymru; rebecca@ucac.cymru

1a. Mae gennym darged deng mlynedd yn amlinellu'r cynnydd disgwyledig mewn plant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwch pa un o'r datganiadau canlynol sy'n adlewyrchu'ch barn orau ar ein gweithredoedd arfaethedig.

1b. Nodwch unrhyw sylwadau ynglŷn â'n gweithredoedd arfaethedig i gyrraedd y targed:

Er ein bod yn cydnabod anhawster gosod targed penodol, byddem yn annog Cyngor Abertawe yn gryf iawn i wneud hynny yn fersiwn terfynol y Cynllun. Mae'r gwahaniaeth rhwng yr ystod isaf ac uchaf a ragnodir gan Lywodraeth Cymru yn sylweddol, a theimlwn y dylai'r Cyngor fod yn gosod ei amcan yn glir - i'w hunan, ac i'r cyhoedd gael gweld a deall, ac er mwyn cynllunio'n gwbl fwriadus i ymggyrraedd ato. Byddem yn awyddus i weld y targed yn cael ei osod tua phen uchaf yr ystod, os nad yn rhagori arno.

Pryderwn, heb darged, y gallai gweithredu fod yn ddigyfeiriad, ac wedi'i nodweddi gan ddiffyg tryloywder.

Cefnogir y bwriad i gynyddu'r cynnig cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg fel rhan o strategaeth farchnata ehangach. Mae'n dda gweld y gallai hyn gynnwys o leiaf un Cylch Meithrin sy'n gysylltiedig â phob ysgol gynradd Gymraeg a/neu ardaloedd yn eu dalgylch a chynyddu'r cynnig Cymraeg Dechrau'n Deg yn eu lleoliadau presennol ac o bosib lleoliadau ychwanegol.

Hoffem gael mwy o fanylder ynghylch sut y bwriedir mynd ati i lenwi'r tua 120 o leoedd cyfrwng Cymraeg Blwyddyn 1 ychwanegol sydd eisoes ar gael yn yr ysgolion.

Mae UCAC yn croesawu bwriad yr awdurdod i sefydlu ysgol(ion) cyfrwng Cymraeg newydd ac i gynyddu capasiti mewn ardaloedd lle mae galw mawr, er bod rhaid nodi mai cynllunio i gynyddu'n rhagweithiol yw nod y cynlluniau erbyn hyn, ac nid ymateb yn oddefol i 'alw'.

Nodir y bwriad i 'nodi' ardaloedd ble mae addysg Gymraeg yn llai hygyrch ar hyn o bryd. Cytunwn yn gryf â'r angen i wneud hynny. Ond byddem yn hoffi gweld rhywfaint o fapio cychwynnol yn y Cynllun terfynol ei hun fel sail ar gyfer cynllunio. Yn ogystal, mae angen bod yn gliriach ynghylch y bwriad ar ôl y weithred gychwynnol o 'nodi'.

Cytunwn gyda'r awdurdod y bydd angen cynnwys prosiectau mewn rhaglen gyfalaf mewn ardaloedd o'r fath.

2a. Deilliant 1: Mwy o blant meithrin/plant tair oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwch pa un o'r datganiadau canlynol sy'n adlewyrchu'ch barn orau ar ein gweithredoedd arfaethedig.

2b. Rhowch sylwadau ar unrhyw agwedd ar ein cynigion mewn perthynas â Deilliant 1:

Yn naturiol, croesawn y bwriad i ddatblygu/cynnal darpariaeth cyn-ysgol Cymraeg ymhob dalgylch ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg erbyn 2025, fodd bynnag, mae diffyg manylder difrifol yma ynghylch yr union fwriad. Byddem yn disgwyl gweld mapio a chynigion pendant. Yn yr un modd, mae gweithio'n agos gyda Mudiad Meithrin i'w gymeradwyo'n fawr - ond pwy yw'r 'partneriaid eraill'?

Croesawn yn fawr y cynigion mewn perthynas â darpariaethau Dechrau'n Deg. Ond unwaith eto, byddai'n dda gweld mwy o fanylder ynghylch faint o gynnydd, ac yn ble, a beth yw'r lleoliadau tebygol ar gyfer darpariaeth newydd.

Mae marchnata a datblygu platfform digidol i'w groesawu, ond hoffwn weld manylion pellach am y sut i'w hyrwyddo ymhlith y cynulleidfaoedd perthnasol, yn ogystal ag amserlen benodol ar gyfer y gwaith. Oes cysylltiadau gyda'r Bwrdd Iechyd, ac Ymwelwyr Iechyd yn benodol? Oes bwriad defnyddio'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd? Mae angen mwy o fanylder yn y Cynllun ei hun.

Mae'n dda gweld fod yr awdurdod yn annog a hyrwyddo Cynnig Gweithredol ar draws yr holl ddarparwyr cyn-ysgol a gofal plant ond byddai'n dda gweld manylion mwy pendant am hyn.

Yn gyffredinol, mae'r adran hon yn hynod o amwys ac amhenodol, ac rydym yn galw ar yr awdurdod i'w gryfhau'n sylweddol erbyn y fersiwn terfynol, gan gynnwys mapio, cynigion, amserlen a thargedau ar gyfer twf dros y deng mlynedd.

3a. Deilliant 2: Mwy o blant dosbarth derbyn/plant pump oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwch pa un o'r datganiadau canlynol sy'n adlewyrchu'ch barn orau ar ein gweithredoedd arfaethedig.

3b. Rhowch sylwadau ar unrhyw agwedd ar ein cynigion mewn perthynas â Deilliant 2:

Fel uchod, Deilliant 1, mae'r adran hon yn hynod o amwys ac amhenodol, ac rydym yn galw ar yr awdurdod i'w gryfhau'n sylweddol erbyn y fersiwn terfynol, gan gynnwys mapio, cynigion, amserlen a thargedau ar gyfer twf dros y deng mlynedd.

Hyderwn y bydd yr adolygiad o'r ddarpariaeth gyfredol ar gyfer hwyrddyfodiaid wedi'i gwblhau mewn pryd i gynnwys cynigion pendant yn y Cynllun terfynol, yn enwedig yn sgil y cyhoeddiad am gyllid ychwanegol at y pwrpas gan Lywodraeth Cymru.

4a. Deilliant 3: Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cam o'u haddysg statudol i un arall. Nodwch pa un o'r datganiadau canlynol sy'n adlewyrchu'ch barn orau ar ein gweithredoedd arfaethedig.

4b. Rhowch sylwadau ar unrhyw agwedd ar ein cynigion mewn perthynas â Deilliant 3:

Mae UCAC yn llongyfarch yr awdurdod am yr hanes da iawn o gadw disgyblion wrth iddynt drosglwyddo o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3, yn trosglwyddo o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg i ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn Abertawe.

Croesewir y gefnogaeth i hwyrddyfodiaid ac eraill ar bwyntiau trosglwyddo hanfodol fel diwedd y Cyfnod Sylfaen a rhyngwyneb cyfnod allweddol 2/3 a chyflwyno rhaglenni dal i fyny i ddisgyblion ym Mlwyddyn 6/7 lle mae angen gwella sgiliau iaith i sicrhau trosglwyddiad esmwyth i addysg uwchradd Gymraeg.

Mae UCAC yn falch iawn o weld yr awdurdod yn hyrwyddo'r egwyddor holl bwysig o gefnogi pob dysgwr i ddod yn amlieithog, i allu defnyddio'r Gymraeg, Saesneg ac o leiaf un iaith ryngwladol arall, a datblygu natur agored a chwilfrydedd am holl ieithoedd a diwylliannau'r byd. Mae hyn yn fater o bwysigrwydd mawr yn y byd modern.

Mae datblygu a chyflenwi templed Cynllun Iaith ar gyfer pob ysgol i gefnogi cynnydd ieithyddol pob plentyn yn y Gymraeg ar draws ein holl ysgolion i'w groesawu.

Mae'n galonogol i weld fod yr awdurdod yn 'dyheu' am o leiaf un aelod o staff o bob ysgol gynradd cyfrwng Saesneg Blynnyddoedd Cynnar/Cyfnod Sylfaen i fynychu'r cwrs sabothol cenedlaethol.

Cefnogwn fwriad yr awdurdod i gyd weithio gyda phartneriaid rhanbarthol i ddarparu cefnogaeth ac adnoddau i ysgolion.

Byddai'n dda gweld y data ar gyfer cyfraddau trosglwyddo rhwng cyfnodau allweddol eraill.

Ond unwaith eto, rhaid nodi bod diffyg gweithredoedd ac amserlenni pendant yn nodweddu'r adran hon, a bod hynny'n wendid sylweddol yn y Cynllun.

5a. Deilliant 4: Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau wedi'u hasesu yn y Gymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwch pa un o'r datganiadau canlynol sy'n adlewyrchu'ch barn orau ar ein gweithredoedd arfaethedig.

5b. Rhowch sylwadau ar unrhyw agwedd ar ein cynigion mewn perthynas â Deilliant 4:

Er ein bod yn cytuno mewn egwyddor â phob un o'r meysydd bras a amlinellir ar gyfer gweithredu, nid oes modd ymateb yn ystyrlon heb ragor o fanylder, gan gynnwys ynghylch dulliau penodol, amserlenni a thargedau a chmau cynnydd penodol. Byddem wedi disgwyl gweld ysgolion unigol yn cael eu henwi – nid yw'r hyn sydd angen ei wneud i sicrhau gwelliant o reidrwydd yr un fath ar gyfer pob ysgol.

Mae archwilio cyfleoedd fel e-sgol a datblygu partneriaethau gyda darparwyr megis Coleg Gwyr yn allweddol ond efallai fod angen ystyried agor trydedd ysgol cyfrwng Cymraeg yn y ddinas er mwyn gwireddu'r targed hyn.

Tybed a oes angen mynd ymhellach i gydnabod rôl a dylanwad y cwricwlwm newydd? Mi ddylai continwrm y Gymraeg (o'i weithredu'n gywir) olygu nad oes unrhyw ddisgybl yn llithro am yn ôl o ran safon eu Cymraeg, na lefel y disgwyliadau ohonynt, waeth pa gyfrwng iaith yw'r ddarpariaeth maent wedi'i dewis. Mewn egwyddor, mi ddylai arwain at siaradwyr mwy hyderus – a allai arwain, dros gyfnod, at fwy o barodrwydd i sefyll cymwysterau yn y Gymraeg.

6a. Deilliant 5: Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol. Nodwch pa un o'r datganiadau canlynol sy'n adlewyrchu'ch barn orau ar ein gweithredoedd arfaethedig.

6b. Rhowch sylwadau ar unrhyw agwedd ar ein cynigion mewn perthynas â Deilliant 5:

Mae'n galonogol i ddarllen am y weledigaeth gan yr awdurdod i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau ar draws holl ysgolion y sir. Mae cydweithio â chyrff megis yr Urdd a Menter Iaith yn allweddol i lwyddiant hyn. Bydd elwa ar brofiadau'r Siarter Iaith a mentrau eraill yn debygol o ddwyn ffrwyth. Byddai Gwobrau Shwmae a sawl cymhelliant tebyg yn gymorth i ddenu fwy o ddisgyblion i ystyried y Gymraeg yn iaith byw ar gyfer bywyd pob dydd.

Yr hyn y byddem am ei weld fyddai cadarnhad o fuddsoddiad dros gyfnod y cynllun er mwyn gwireddu'r freuddwyd, ynghyd ag amserlenni a thargedau meintiol.

7a. Deilliant 6: Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Nodwch pa un o'r datganiadau canlynol sy'n adlewyrchu'ch barn orau ar ein gweithredoedd arfaethedig.

7b. Rhowch sylwadau ar unrhyw agwedd ar ein cynigion mewn perthynas â Deilliant 6:

Wrth gydnabod yr hyn mae'r awdurdod eisoes yn cyflawni yn llwyddiannus, teimlir fod angen fwy o fanylder am gynlluniau'r awdurdod er mwyn gwireddu'r targed hwn. Nid oes digon o wybodaeth sylfaenol yn yr adran hon ynghylch y ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes a sut mae'n gweithredu, nac at ddigonolrwydd staff arbenigol a llawr dosbarth. Bydd angen llawer fawr iawn o waith datblygu ar yr adran hon i fod yn addas at ei phwrsas, ac yn gydnaws â gofynion y Ddeddfwriaeth newydd a'r rhaglen drawsnewid. Fel gyda phob adran arall, mae angen gweld mapio, dadansoddi, cynllunio manwl, amserlen a thargedau meintiol ar gyfer gwahanol agweddau.

8a. Deilliant 7: Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu dysgu'r Gymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwch pa un o'r datganiadau canlynol sy'n adlewyrchu'ch barn orau ar ein gweithredoedd arfaethedig.

8b. Rhowch sylwadau ar unrhyw agwedd ar ein cynigion mewn perthynas â Deilliant 7:

Heb sicrhau y gellir cynyddu nifer y staff sy'n gallu dysgu'r Gymraeg fel pwnc, a/neu sy'n gallu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, mae'n deg dweud na fydd unrhyw obaith cyrraedd at y deilliannau eraill; mae'r Deilliant hwn yn gonglfaen ar gyfer popeth arall yn y Cynllun.

Nodwn y gwaith sydd eisoes wedi digwydd o fewn y sir, a'r gwaith y bwriedir ei gyflawni - bydd hyn oll yn allweddol i sicrhau'r cynnydd angenrheidiol yn niferoedd y staff sy'n gallu dysgu'r Gymraeg fel pwnc neu sy'n gallu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Cytunwn fod angen parhau â ffocws strategol yn y maes hwn, gan adnabod blaenoriaethau ar gyfer twf a chynnydd.

Byddai'n ddefnyddiol gweld mwy o ddadansoddiad ystadegol yn y Cynllun o ran lefelau sgiliau gweithlu addysg y sir (penaethiaid/athrawon/cynorthwywyr) mewn perthynas â'r Gymraeg. Byddai dadansoddiad o'r fath yn sail ar gyfer gosod targedau cynnydd penodol i gyd-fynd â thargedau Llywodraeth Cymru dan ei strategaeth Gymraeg 2050.

Teimlwn, er tegwch i Gyngor Sir Abertawe (a chynghorau eraill) bod llawer o'r rheolaeth dros y cyflenwad o staff yn nwylo cyrff eraill e.e. Llywodraeth Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg (a'r Bwrdd Achredu AGA), darparwyr Addysg Gychwynnol Athrawon, ac y bydd angen gweithredu mewn partneriaeth i sicrhau'r dulliau gweithredu mwyaf effeithiol.

Wedi dweud hynny, hoffem weld y cyfan yn cael ei feintoli a'i gynllunio mwy manwl, gyda thargedau twf dros gyfnod. Yn naturiol, bydd angen cynllunio nawr ar gyfer unrhyw gynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg dros gyfnod y Cynllun.

9. Nodwch unrhyw sylwadau cyffredinol pellach:

Ni allwn ond nodi ein siom gyda safon y Cynllun drafft hwn. Mae'n ddiffygiol iawn o ran gweledigaeth, a chynlluniau pendant ar gyfer twf, gan gynnwys camau cynnydd dros y deng mlynedd. Rydym yn argymhell bod gwaith sylweddol iawn yn cael ei wneud arno cyn i'r Cynllun terfynol gael ei gyhoeddi, a hynny mewn cydweithrediad gyda'r Fforwm Addysg Gymraeg.